# Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol – **Bil yr Amgylchedd (Cymru)**
# Natural Resource Management Bulletin

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhifyn 22 – Mai 2015

## Bil yr Amgylchedd wedi'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi cyflwyno Bil yr Amgylchedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Lansiodd y Gweinidog y Bil wrth ymweld â Fferm Gymunedol Greenmeadow yn Nhorfaen, sy'n un o ugain prosiect a ariennir gan y Gronfa Natur. Mae'r prosiect yn hyrwyddo rheoli tir mewn ffordd gynaliadwy a gwaith i wella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sy'n peillio ledled cymoedd y De. Mae'r Gweinidog wedi lansio ffilm wedi'i hanimeiddio hefyd sy'n darparu trosolwg o gynnwys y Bil a'i amcanion.



Mae cyfres o daflenni ffeithiau sy'n egluro'r newidiadau a gyflwynir gan y Bil ar gael i'w darllen a'u lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cymru. Mae cyfres o 'gwestiynau cyffredin' yn ategu'r taflenni ffeithiau, a byddant yn cael eu diweddaru yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad.

http://llyw.cymru/bilyramgylchedd

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn dechrau'r broses o graffu ar y Bil a'i drafod. Gallwch chi ddilyn taith y Bil drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddefnyddio'r ddolen isod:

www.cynulliad.cymru

Un o amcanion sylfaenol y Bil yw cyflwyno dull newydd, mwy integredig o reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy. Cliciwch ar y ddolen isod i gael mwy o wybodaeth am reoli Adnoddau Naturiol a gweld ein ffilm wedi'u hanimeiddio.

www.llyw.cymru/rheoliadnoddaunaturiol